# JONES, JOHN WILLIAM ('Andronicus'; 1842 - 1895), llenor



**Enw:** John William Jones
**Ffugenw:** Andronicus
**Dyddiad geni:** 1842
**Dyddiad marw:** 1895
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llenor
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn y Bala, 30 Mehefin 1842; mab y Gilrhos (Llangywer) oedd ei dad (siopwr), a Saesnes o ymyl Wrecsam oedd ei fam. Aeth i Gaer yn 1859, i weithio mewn siop; symudodd i Fanceinion yn 1863, a daeth yn drafaeliwr masnachol; ond yn 1884 gafaelwyd ynddo gan y cryd cymalau, a bu'n orweiddiog (yng Nghaernarfon) o hynny hyd ddiwedd ei oes. Bu farw 15 Mehefin 1895, a chladdwyd yn Llanbeblig. Yn fuan ar ôl symud i Fanceinion, dechreuodd sgrifennu i'r *Faner*; yn nes ymlaen sgrifennai i'r *Herald* ac wedyn i'r *Genedl* a'r *Cymru*. Yr oedd yn sgrifennwr difyr dros ben, a chanddo law neilltuol at atgofion ac at ddisgrifiadau chwareus. Cyhoeddodd yn 1894 *Adgofion Andronicus*, detholiad o'i ysgrifau; a golygodd R.D. Rowland ('Anthropos') eraill ohonynt yn 1895, dan y teitl *Yn y Trên*, gydag ysgrifau bywgraffyddol y seiliwyd y nodyn hwn arnynt.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Gweithiau

J. W. Jones, *Adgofion Andronicus*

J. W. Jones, Robert David Rowland (gol.), *Yn y trên: neu, Adgofion trafaeliwr* (Caernarfon 1895)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 73638621

Wikidata: Q18535752

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu